

## Asesiad HMI Wendy Williams o Heddlu Gogledd Cymru – Trawsgrifiad

Helo. Wendy Williams ydw i, a fi yw Arolygydd Cwnstablïaeth Ei Mawrhydi ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru.

Dwi'n un o bum arolygydd, a'n rôl i yw arolygu heddluoedd ar ran y cyhoedd. Pob blwyddyn byddwn yn cynhyrchu asesiad blynyddol o sut mae pob heddlu'n perfformio.

Rwy'n fodlon gyda'r rhan fwyaf o agweddau perfformiad Heddlu Gogledd Cymru o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu, ond mae yna rai meysydd sy'n dal angen eu gwella er mwyn darparu gwasanaeth da yn gyson.

Mae'r heddlu'n dda o ran atal troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ac o ran tacio troseddau difrifol a chyfundrefnol.

Fodd bynnag, mae angen gwella ei ddyraniad o droseddau ar gyfer ymchwiliad mewn modd sy'n paru sgiliau a phrofiad yr ymchwiliwr i anghenion dioddefwyr bregus.

Mae gennyf bryderon o ran sut mae'r heddlu'n ymateb i ddioddefwyr bregus.

Mae'r heddlu'n datblygu ei ddealltwriaeth o raddfa ac effaith cam-drin plant yn rhywiol ac mae ei bartneriaeth gyda Barnardos yn meithrin cefnogaeth gryfach i bobl ifanc dan risg. Fodd bynnag, mae'r fenter yn cael ei llesteirio gan yr anhawster o nodi'r rhai sydd fwyaf agored i niwed, yn ystod eu cyswllt cychwynnol gyda'r heddlu. Mae yna hefyd anghysonderau o ran rheoli troseddwr ac asesu ac ymateb i ddioddefwyr cam-drin domestig. Rwy'n croesawu'r camau mae'r heddlu'n cymryd i ddelio â'r meysydd hyn, yn cynnwys defnyddio camerâu ar y corff i wella ansawdd tystiolaeth a gesglir. Bydd y cynnydd yn y nifer o gynghorwyr cam-drin domestig annibynnol yn helpu hybu'r gefnogaeth sydd ar gael i'r dioddefwyr hynny ble mae'r risg fwyaf.

Rwy'n fodlon fod gan yr heddlu gynlluniau, wedi eu paru â gwelliannau mewn arferion gwaith, fydd yn bodloni'r her o wneud mwy gyda llai. Mae gwelliannau yn cynnwys defnydd ehangach o dechnoleg newydd ac, yn benodol, ddefnyddio data symudol. Bydd y newidiadau technegol hyn yn galluogi swyddogion rheng flaen i gael mynediad at systemau TG a gwybodaeth yr heddlu, fel eu bod yn gallu gweithio'n effeithiol ac effeithlon heb fod angen dychwelyd i orsaf heddlu.

Yn y flwyddyn i ddod, bydd gennyf ddiddordeb penodol mewn gweld effaith buddsoddiad parhaus yr heddlu mewn technoleg newydd, i wella ansawdd gwasanaeth i bobl fregus. Edrychaf ymlaen hefyd at weld sut mae'r heddlu'n gwella ei ymchwiliadau.